



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board



CANLLAW

Cwm Taf Morgannwg

I OFALWYR



CROESO GAN HYRWYDDWYR GOFALWYR CWM TAF MORGANNWG

Mae gofalwyr yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r ddarpariaeth o ofal yn yr ardal, ac maen nhw'n gwneud cyfraniad anferthol hefyd i'r gwaith o gefnogi eu hanwyliaid yn y gymuned. Maen nhw'n treulio llawer iawn o'u hamser a'u hegni gwerthfawr yn gofalu am bobl fregus, ac rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynorthwyo i wneud y gwaith hwn.

Rydym yn gobeithio y bydd y Canllaw hwn, sydd wedi ei greu ar y cyd rhwng Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Cyngorau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, yn helpu i sicrhau gwell canlyniadau i bawb, trwy fod yn ffynhonnell gynhwysfawr o'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau cymorth i ofalwyr ac i breswylwyr eraill yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

Y Cyngorydd Phillip White
Hyrwyddwr Gofalwyr - CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cyngorydd David Hughes
Hyrwyddwr Gofalwyr - CBS Merthyr Tudful

Y Cyngorydd Christina Leyshon
Hyrwyddwr Gofalwyr - CBS Rhondda Cynon Taf

Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Maria Thomas
Hyrwyddwr Gofalwyr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

CYFLWYNIAD

Dyma bumed rhifyn Canllaw Gofalwyr Cwm Taf Morgannwg.

Roedd y rhifynnau cyntaf yn cynnwys gwybodaeth am ardaloedd Merthyr Tudful a RhCT, ond bellach mae'n cynnwys gwybodaeth o Ben-y-bont ar Ogwr hefyd. Mae'r Canllaw hwn wedi cael ei greu i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i gael y cymorth iawn, fel y gallwch chi gyflawni eich cyfrifoldebau gofalu yn effeithiol.

Mae'r cysylltiadau defnyddiol wedi eu rhestru yn nhrefn y wyddor o dan y penawdau canlynol, i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth benodol sydd ei hangen arnoch mor gyflym â phosibl.

Rydym yn gobeithio y bydd y cyhoeddiad hwn yn ddefnyddiol i chi, ac yn eich helpu i ddeall yn well y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol a sut i gael gafael arnyn nhw.

CYNNWYS

Cysylltu â'r Cyngor	3
Camdriniaeth a Diogelu	5
Oedolion a Phobl Hŷn	9
Eiriolaeth, Cwnsela a Therapïau Siarad	17
Genedigaethau a Marwolaethau	20
Budd-daliadau a Chymorth i Ofalwyr	21
Plant a Phobl Ifanc	29
Cyffuriau ac Alcohol	34
Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth	37
Iechyd a Lles	43
Tai, Addasu'r Cartref a Digartrefedd	56
Cadw'n heini a Mynd am dro	62
Iechyd Meddwl	67
Materion Ariannol	71

CYSYLLTU Â'R CYNGOR

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

Wyneb yn wyneb yn y prif swyddfeydd yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB

Ar y ffôn: 01656 643643 neu drwy e-bost: talktous@bridgend.gov.uk

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol. Rhif ffôn: 01656 336969

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

Wyneb yn wyneb yn y brif swyddfa yn Stryd y Castell (gyferbyn â'r safle bws) neu dros y ffôn: 01685 725000.

E-bost: customer.care@merthyr.gov.uk
Post: Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN

Ym Merthyr Tudful, mae gwybodaeth a chyfeiriadau i ofalwyr ar gael trwy ffonio Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful: 01685 353900

Cyngor Rhondda Cynon Taf:

Ffoniwch 01443 425005.

I siarad â rhywun wyneb yn wyneb, trefnwch apwyntiad yn y Ganolfan Cyngor IBobUn-Trefnwch apwyntiad ar y wefan: www.rctcbc.gov.uk/appointments

Yn RhCT, mae'r Prosiect Cymorth i Ofalwyr yn cynnig cymorth am ddim i ofalwyr, gan gynnwys darparu gwybodaeth gynhwysfawr, gwasanaeth cwnsela a diwrnodau hyfforddi sy'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau gwahanol i'ch helpu chi yn eich rôl ofalu.

Rhif ffôn: 01443 281463.

Gwefan: www.rctcbc.gov.uk/carers

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

Rhif ffôn: 01443 744800
Cydlynedd Mesur Gofalwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Rhif ffôn: 01443 744844

RHIFAU DEFNYDDIOL ERAILL AR GYFER Y CYNGHORAU:

Pen-y-bont ar Ogwr:

Gwasanaethau Cwsmeriaid	01656 643643
Tu allan i oriau	Cyffredinol 01656 643643
Gwasanaethau Oedolion	01443 743665

Ym Merthyr Tudful:

Taliadau	01685 725115/ 01685 725000
Yr Amgylchedd a Chynllunio.....	01685 725000
Y Dreth Gyngor	01685 725115
Y Budd-dal Tai	01685 725000
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	01685 725000
Ymholiadau Cyffredinol	01685 725000
Addysg a Dysgu	01685 725000
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant	01685 725000
Y Tîm Plant Anabl	01685 724500
Tu allan i oriau Gwasanaethau Cymdeithasol ..	01443 743665
Argyfyngau eraill	01685 385231

RhCT:

Llinell dalu 24/7	01443 425000
Gwasanaethau Amgylcheddol	01443 425001
Y Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai	01443 425002
Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion	01443 425003
Cynllunio ac Adfywio	01443 425004
Ymholiadau Cyffredinol	01443 425005
Addysg	01443 425005
Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant	Rhif pwysig ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â gwasanaethau i blant: 01443 425006
Y Tîm Plant Anabl	01443 744222 neu 01443 425006
Tu allan i oriau	Gwasanaethau Cymdeithasol: 01443 743665
Argyfyngau eraill:	01443 425011

CAMDRINIAETH A DIOGELU

Mae nifer o sefydliadau'n ceisio diogelu pobl o bob oedran rhag camdriniaeth o bob math. Mae rhai o'r rhain wedi'u rhestru isod.

Cam-drin plant

I adrodd am achos posib o gam-drin plant, cysylltwch â'r canlynol:	<p>Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: 01656 642320 E-bost: earlyhelp@bridgend.gov.uk</p> <p>Ym Merthyr Tudful: 01685 725000 E-bost: childrensservices@merthyr.gov.uk</p> <p>Yn RhCT: Rhif pwysig ar gyfer pob ymholiad sy'n ymwneud â gwasanaethau i blant: 01443 425006</p> <p>Tîm Dyletswyddau Brys Tu Allan i Oriau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a RhCT: 01443 743665</p>
Mae Childline yn darparu gwybodaeth a chymorth rhad ac am ddim i blant a phobl ifanc dros y ffôn ac ar eu gwefan.	<p>Rhadffôn: 0800 1111 www.childline.org.uk</p>
Mae'r NSPCC yn gweithio'n agos gyda chymunedau lleol trwy eu gwasanaethau i blant a theuluoedd, eu gwaith ymgyrchu a'u rhwydwaith o gynorthwyr a phartneriaid cymunedol.	<p>Rhadffôn: 0808 800 5000 www.nspcc.org.uk</p>
Partneriaeth aml-asiantaeth yw Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg sy'n gweithio i ddiogelu oedolion agored i niwed yn RhCT a Merthyr Tudful.	<p>Mae'r Bwrdd Diogelu ar gyfer oedolion a phlant yn RhCT a Merthyr Tudful. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01443 744800</p>
Dylech chi gysylltu â Heddlu De Cymru os bydd angen cymorth brys arnoch chi a phan fydd bygythiad i fywyd neu eiddo. Os ydych chi am dynnu sylw at ddiogwyddiad neu broblem sydd ddim yn argyfwng neu os ydych chi am wneud ymholiad cyffredinol, ffoniwch rif di-argyfwng 24 awr yr heddlu.	<p>Rhif argyfwng: 999 Digwyddiadau sydd ddim yn argyfwng neu ymholiadau cyffredinol: 101</p>

Camdriniaeth yn y Cartref:

Gwasanaeth cymorth a gwybodaeth cyfrinachol am ddim yw Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan i unrhyw un sy'n dioddef o drais domestig neu sydd am gael mwy o wybodaeth am wasanaethau cymorth. Ar gael 24 awr.

Rhadffôn: 0808 80 10 800
Gwasanaeth neges destun: 07860 077333
E-bost: info@livefearfreehelpline.wales
Gwefan: <https://llyw.cymru/byw-heb-ofn>

Prosiect Dyn Cymru Mae prosiect Safer Wales Dyn yn rhoi cymorth i ddynion heterorywiol, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n dioddef o gamdriniaeth yn y cartref gan bartner.

Rhif ffôn: 0808 801 0321
E-bost: support@dynwales.org

Elusen yw Hafan Cymru sy'n gweithio ledled Cymru ac yn darparu tai a gwasanaethau cymorth i fenywod, dynion a'u plant, yn enwedig i'r rheiny sy'n dianc rhag camdriniaeth yn y cartref. Maen nhw'n cynnig cymorth cynhwysfawr i helpu pobl gydag amrywiaeth eang o anghenion, sydd yn aml yn anghenion cymhleth a niferus, gan gynnwys y rheiny sydd wedi dioddef o gamdriniaeth gorfforol, rywiol neu seicolegol, y rheiny sydd wrthi'n adfer eu hiechyd meddwl, cyn-droseddwy, camddefnyddwyr sylweddau a phobl sydd wedi gadael gofal.

Rhif ffôn: 01443 237015

Mae'r Men's Advice Line yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer dynion yn bennaf sy'n dioddef o gamdriniaeth yn y cartref gan bartner.

Rhif ffôn: 0808 801 0327
E-bost: info@mensadvice.org.uk
www.mensadvice.org.uk

Tim o heddweision arbenigol ym mhob adran yw Uned Atgyfeirio Camdriniaeth yn y Cartref yr Heddlu ac maen nhw'n deall yr anawsterau rydych chi'n eu hwynebu. Maen nhw ar gael i siarad â chi am sut i roi diwedd ar gamdriniaeth yn y cartref, naill ai drosoch chi eich hun neu dros rywun arall.

Rhif ffôn: 01443 657202

CAMDRINIAETH A DIOGELU

Camdriniaeth yn y Cartref: (parhad)

Elusen atal troseddau yw Merthyr Tudful Mwy Diogel (Safer Merthyr Tudful), sy'n cynnig gwasanaethau i bobl leol i helpu i leihau trosedd, magu hyder a galluogi i gymdogaethau deimlo'n fwy diogel.

Rhif ffôn: 01685 353999
Tîm Adnoddau Camdriniaeth yn y Cartref:
Rhadffôn: 0800 389 7552
Rhif ffôn: 01685 388444
www.smt.org.uk

Mae Cymru Ddiogelach yn gweithio i helpu pobl i deimlo'n ddiogel a gwella bywyd cymunedau yng Nghymru. Maen nhw'n cynnig cymorth a gwasanaethau i bobl sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref, troseddau casineb neu aflonyddu, neu sy'n cael eu gorfodi i wneud pethau dydyn nhw ddim am eu gwneud.

Rhif ffôn: 029 2022 0033
E-bost: admin@saferwales.com

Gwasanaeth yw'r Oasis Centre (gwasanaeth i bob rhywedd) sy'n rhoi cyngor a chymorth i unigolion yn Rhondda Cynon Taf sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r gwasanaeth ar gael i fenywod a dynion, mae'n rhoi arweiniad i unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus ac yn darparu mesurau i wella eu diogelwch.

Ym Mhontypridd, ffoniwch: 01443 494192

Victim Support yw'r elusen annibynnol sy'n helpu pobl i ymdopi ag effeithiau trosedd.

Llinell gymorth: 0300 30 30161
DART (Tîm Adnoddau Camdriniaeth yn y Cartref) 01685 388444

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i fenywod a phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y cartref neu sy'n dal i'w dioddef.

Cwm Cynon (Aberdâr)
Llinell gymorth 24 awr: 01685 87 96 73
Pontypridd
Llinell gymorth 24 awr: 01443 491528
www.welshwomensaid.org.uk/cy

Mae Cymorth i Ferched yn gweithio i roi diwedd ar gam-drin menywod a phlant yn y cartref.

Rhif ffôn: 0808 2000 247 Llinell Gymorth Genedlaethol Trais Domestig 24 awr.

CAMDRINIAETH A DIOGELU

Camdriniaeth yn y Cartref: (parhad)

Mae Cymorth i Ferched RhCT yn darparu llety mewn argyfwng i fenywod a phlant mae camdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol wedi effeithio arnyn nhw. Maen nhw hefyd yn darparu cymorth yn y gymuned a'r gallu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth, er mwyn eu galluogi nhw i barhau â'u bywyd.

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 400791
www.wa-rct.org.uk

Oedolion Bregus

Gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru os oes pryderon gyda chi am rywun sy'n byw mewn cartref gofal.

Rhif ffôn: 0300 790 0126
E-bost: ciw@gov.wales

Partneriaeth amlasiantaeth yw Bwrdd Diogelwch Cymunedol Cwm Taf Morgannwg sy'n cydweithio i leihau trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ar hyn o bryd ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd yn benderfynol o sicrhau bod y fwrdeistref yn lle mwy diogel i fyw, i weithio, ac i ymweld ag ef.

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425001
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'n bosib cysylltu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol trwy: ffonio: 01656 306069 neu e-bostio: saferbridgend@bridgend.gov.uk

Mae Victim Support yn helpu pobl i ymdopi ag effeithiau trosedd.

Llinell gymorth: 0300 30 30161
www.victimsupport.org

Unigolion dros 18 oed sydd naill ai mewn gofal cymdeithasol neu mae angen gofal cymdeithasol arnyn nhw yw oedolion bregus, a hynny oherwydd anabledd, salwch, neu henaint. Mae hyn yn cynnwys y rheiny sy'n methu edrych ar ôl eu hunain neu sy'n methu amdiffyn eu hunain rhag niwed neu gamfanteisio.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 642477 neu E-bost: AdultsafeguardingMASH@bridgend.gov.uk
Am fwy o wybodaeth neu gyngor, ym Merthyr Tudful ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT ffoniwch y Tîm Diogelu Oedolion ar: 01443 425003 am fwy o wybodaeth.
Y tu allan i oriau gwaith arferol, ffoniwch y Tîm ar Ddyletswydd Brys ar: 01443 743665
Os ydych chi'n amau bod trosedd wedi cael ei chyflawni, gallwch chi gysylltu â: Heddlu De Cymru ar: 101 Crime Stoppers: 0800 555 111

OEDOLION A PHOBL HÛN

Oedolion a Phobl HÛn

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn asesu anghenion pobl ac yn penderfynu a ydyn nhw'n gymwys i gael gwasanaethau. Dydy pob Gwasanaeth Cymdeithasol i Oedolion ddim yn rhad ac am ddim; weithiau bydd gofyn i ddefnyddwyr y gwasanaethau gyfrannu at y gost.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 642279
Ym Merthyr Tudful, ffonwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffonwch: 01443 425003 am
asesiad.
Rhif ffôn: 01443 743665 mewn argyfwng y
tu allan i oriau'r swyddfa.

Mae Age Connects Morgannwg yn darparu gwybodaeth a chyngor, cymorth, cyngor ar fudd-daliadau lles, cymorth i lenwi ffurflenni a chymorth ymarferol i wella bywyd pobl hÛn. Ymhlith y gwasanaethau mae gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty, gwasanaeth torri ewinedd a gwasanaethau glanhau a siopa.

Rhif ffôn: 01443 490650
E-bost: information@acmorgannwg.org.uk
www.acmorgannwg.org.uk

Age Cymru yw'r elusen genedlaethol i bobl hÛn yng Nghymru. Ei bwriad yw gwella bywyd pobl hÛn trwy ymgyrchu, codi arian, darparu gwybodaeth a chyngor, cynnal prosiectau a darparu gwasanaethau i bobl hÛn ledled Cymru.

Rhif ffôn: 02920 431555
Llinell gymorth Age Cymru yw:
08000 223 444
www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru Enterprises Pontypridd yn cynnig gwybodaeth wyneb yn wyneb ar amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau ar gyfer pobl dros 50 oed yn benodol.

Rhif ffôn: 0800 652 9221

Mae Cymdeithas Alzheimer yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys cymorth, cyfeillio, eiriolaeth a grwpiau gweithgareddau. Mae Dementia Connect, y gwasanaeth cymorth dementia, yn gwasanaethu Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

0333 150 3456
Dementia.connect@alzheimers.org.uk

OEDOLION A PHOBL HŶN

Oedolion a Phobl Hŷn

Gall y Cyngor ddarparu pasys bws i bobl dros 60 oed ac i bobl gydag anableddau neu broblemau symud. Mae'n bosib bod pàs bws cydymaith ar gael i rywun deithio'n rhad ac am ddim i helpu rhywun gydag anabledd.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, mae modd lawrlwytho ffurflen gais o'r wefan www.merthyr.gov.uk neu fffoniwch: 01685 725000

Yn RhCT gallwch wneud cais ar www.rctcbc.gov.uk

Rhif ffôn: 01443 425001 neu ewch i'ch Canolfan IBobUn leol.

Cartrefi Gofal Mae gadael eich cartref a symud i gartref gofal yn gam mawr. Gallen ni eich helpu chi i ystyried yr opsiynau a gwneud penderfyniad.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, fffoniwch: 01685 725000

Yn RhCT, fffoniwch: 01443 425003

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn gwneud adroddiadau arolygu ar bob cartref gofal ym Merthyr Tudful a RhCT.

Rhif ffôn: 0300 790 0126

E-bost: ciw@gov.wales
www.ciw.wales.gov.uk

Mae pecynnau a chynlluniau gofal yn cael eu trefnu fesul unigolyn er mwyn diwallu'r anghenion penodol gafodd eu nodi mewn asesiad o'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano. Enw'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi yn sgil hyn yw Pecyn Gofal. Mae asesiad o anghenion yn rhad ac am ddim. Mae gofawyr hefyd yn gymwys i gael asesiad ohonyn nhw eu hunain.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, fffoniwch: 01685 724500

Yn RhCT, fffoniwch: 01443 425003

Cwynion am y gwasanaethau rydych chi'n eu cael gan wasanaethau cymdeithasol

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, fffoniwch: 01685 725000
E-bost: mtcbc.complaints@merthyr.gov.uk

Yn RhCT, fffoniwch: 01443 425003

E-bost welisten.complaints@rctcbc.gov.uk

Mae canolfannau dydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd grŵp a chyfleusterau arlwygo sy'n cynnig bwyd am bris disgownt i 50 a mwy o breswylwyr. Fffoniwch y Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Dydd.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, fffoniwch: 01685 724500

Yn RhCT, fffoniwch: 01443 425544

OEDOLION A PHOBL HÛN

Oedolion a Phobl HÛn

Grŵp o unigolion gyda meddylfryd tebyg yw Dementia Friendly Maerdy sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod y Rhondda yn gymuned ddiogel a chefnogol i bobl sy'n byw gyda dementia, gan gynnwys eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr.

E-bost: dementiafriendlymaerdy@gmail.com
Rhif ffôn: 07542 877224

Gall Canolfan Byw Annibynnol Dewis roi cymorth i bobl gyda thaliadau uniongyrchol.

Rhif ffôn: 01443 827930
www.dewiscil.org.uk

Mae taliadau uniongyrchol yn cynnig opsiwn gwahanol i ddarparu gwasanaethau i chi'n uniongyrchol. Taliadau arian ydyn nhw er mwyn i chi allu talu am wasanaethau gofal cymdeithasol yn hytrach na chael gwasanaeth wedi'i drefnu i chi yn barod. Eu bwriad yw diwallu anghenion unigolion sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol.

In Bridgend, telephone 01656 643643
In Merthyr telephone: 01685 725000
In RCT telephone: 01443 425003

Gall cymorth yn y cartref gael ei ddarparu gan wasanaethau arlwyo a gofal yn y cartref y cyngor neu drwy sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau sector preifat.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

Grwpiau annibynnol o bobl dros 50 oed yw Cyldoedd Trafod Fifty Plus i Bobl HÛn sy'n cwrdd i drafod materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hÛn ledled ardal Cwm Taf Morgannwg. Does dim angen talu i ymuno nac i fynychu cyfarfodydd, ac aelodau'r fforwm sy'n gyfrifol am yr agenda. Yn aml, maen nhw'n gwahodd siaradwyr i esbonio sut mae polisiâu a strategaethau'n effeithio ar bobl hÛn.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, cysylltwch â'r Swyddog Datblygu Pobl HÛn ar: 01685 725000
Yn RhCT, cysylltwch ar: 01443 744847 neu Age Connects Morgannwg: 01443 490650

OEDOLION A PHOBL HÛN

Oedolion a Phobl HÛn

Mae Hafal yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i bobl gyda salwch meddwl, gan gynnwys cyngor a chymorth uniongyrchol, cymorth mewn argyfwng, eiriolaeth, cymorth grŵp, cyflwyniadau ar gyfer cyfeillio a phrosiectau cyflogaeth a hyfforddiant.

E-bost: gill.bundy@hafal.org
Rhif ffôn: 01685 884918

Mae Homecare yn darparu gwasanaeth yn y gymuned, sy'n helpu pobl gydag anghenion gofal personol i fyw gartref.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 724500
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

Elusen genedlaethol yw Independent Age (Counsel and Care ynghynt) sy'n gweithio gyda phobl hÛn a'u teuluoedd a gofalwyr, er mwyn iddyn nhw gael y gofal a'r cymorth gorau.

Rhif ffôn: 0800 319 6789
www.independentage.org.uk

Nod y Gwasanaeth Gofal Canolraddol ac Adsefydlu yw hybu a chynnal annibyniaeth pobl sydd wedi wynebu cyfnod o salwch neu wedi colli sgiliau. Mae'n rhaid bodloni meini prawf cymhwysedd i ddefnyddio'r gwasanaeth, a dim ond hyd at 6 wythnos bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

Mae ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn yn darparu gwybodaeth a chymorth i bobl dros 65 oed i'w galluogi nhw i gadw'n iach, yn gynnes, ac yn ddiogel dros y gaeaf.

Rhif ffôn: 029 2043 1555
www.kwtw.org.uk

Mae Timau Anabledd Dysgu yn darparu gwasanaethau i bobl sydd ag anableddau dysgu a'r bobl sy'n gofalu amdany'n nhw.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
RhCT 01443 425003

OEDOLION A PHOBL HÛN

Oedolion a Phobl HÛn

System Iarwm Gartref a Personol i Bobl HÛn, pobl fregus neu pobl anabl, ac i ddiodefwyr troseddau yw Lifeline. Mae'n rhoi tawelwch meddwl iddyn nhw trwy ddarparu gwasanaeth brys 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, am daliadau misol.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 384489 neu e-bostiwch: lifeline@merthyr.gov.uk

Yn RhCT, cysylltwch â chanolfan monitro Llinell Fywyd am fwy o wybodaeth: 01443 425090 neu e-bostiwch Llinellfywyd@rctcbc.gov.uk www.rctcbc.gov.uk/teleofal

Mae Mental Health Matters yn gweithio dros bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, eu gofalwyr a'u cynhalwyr, ac yn gweithio gyda nhw. Mae'n hybu iechyd meddwl cadarnhaol, ac mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu pobl i wella.

Mae eu safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rhif ffôn: 01656 767045

E-bost: admin@mhmwales.org.uk

www.mhmwales.org.uk

Cartrefi nyrsio

Gweler Gofal Preswyl

Gall therapyddion galwedigaethol roi cyngor i bobl gyda phroblemau symud neu broblemau gyda'u dwylo ar y dulliau a'r offer sydd ar gael i'w helpu nhw i barhau i fod yn annibynnol.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 724500

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

Mae Timau Gofal Cymdeithasol i Bobl HÛn yn darparu gwasanaethau i bobl hÛn, pobl fregus neu pobl gydag anabledd corfforol, i'w helpu nhw i fyw'n annibynnol.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

Mae Timau Iechyd Meddwl i Bobl HÛn wedi ymrwymo i roi cymorth i bobl hÛn sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 351100

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003

OEDOLION A PHOBL HŶN

Oedolion a Phobl Hŷn

Mae People First yn rhoi cymorth i bobl gydag anabledd dysgu a/neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 668314
Yn RhCT, ffonwch: 01443 683037

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ag Anableddau Corfforol yn darparu gwasanaethau i bobl hŷn, pobl fregus neu bobl gydag anabledd corfforol, i'w helpu nhw i fyw bywyd annibynnol a boddhaus.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffonwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffonwch: 01443 425003

Gofal Preswyl Mae gadael eich cartref a symud i gartref gofal yn gam mawr. Gallen ni eich helpu chi i ystyried yr opsiynau a gwneud penderfyniad.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr,
ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffonwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffonwch: 01443 425003

Mae Canolfan Hunanofal Sandville yn cynnig gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar bobl, gyda gofal cymdeithasol a seicolegol i gleifion a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau dros nos, trafndiaeth i gleifion o ardal Pen-y-bont ar Ogwr i Felindre, a therapïau a gweithgareddau ategol fel adweithgeg ac ati.

Rhif ffôn: 01656 743344
E-bost: info@sandville.org.uk

Seibiant:

Elusen yw Carers' Support Centre sy'n darparu gwyliau cost isel i ofalwyr. Nod y gwyliau yw sicrhau bod gofalwyr a'u teuluoedd yn gallu cael gwyliau fforddiadwy. Maen nhw ar gyfer gofalwyr, naill ai ar eu pennau eu hunain, neu gyda'r person maen nhw'n gofalu amdano.

Rhif ffôn: 0117 965 2200
www.carerssupportcentre.org.uk

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr (gafodd ei ffurfio gan uno Crossroads Care a'r Princess Royal Trust for Carers) yn darparu gofal ymarferol a seibiannau i bobl sy'n gofalu am rywun gydag anabledd neu salwch parhaol.

Rhif ffôn: 01443 480484
www.carers.org/local-service/cwmtaf

Mae gwefan Hadnet yn darparu rhestr o gyrchfannau gwyliau hygyrch yn y DU. Maen nhw hefyd yn darparu offer a gwasanaethau i'r gymuned anabl.

Rhif ffôn: 01707 324581
www.hadnet.org.uk

Mae Livability Holidays yn rhan o elusen, ac maen nhw'n cynnig amrywiaeth eang o wyliau gwesty a gwyliau hunanarlwyo hygyrch yn y DU, ger cyrchfannau poblogaidd ar lan y môr.

Rhif ffôn: 020 7452 2000
www.livability.org.uk

OEDOLION A PHOBL HŶN

Seibiant:

Elusen genedlaethol yw Revitalise sy'n darparu gwyliau byr (gofal seibiant) i bobl gydag anabledau corfforol, a'u gofalwyr. Mae pob gwyliau'n darparu prydau llawn ac yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a gwibdeithiau. Mae gofal nyrsio 24 awr ar alw a chymorth personol wedi'i gynnwys ym mhris pob gwyliau.

Rhif ffôn: 0303 303 014
E-bost: bookings@revitalise.org.uk
www.revitalise.org.uk

Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol helpu i drefnu gwyliau byr (gofal seibiant) i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u gofalwyr.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003
E-bost: gwasanaethaucymdeithasol@rctcbc.gov.uk
Gall y Clinig Cymorth i Ofalwyr roi seibiant i ofalwyr sydd am fynd i un o'r digwyddiadau hyn sy'n rhad ac am ddim.
CarersLine: 0808 100 1801

Gall y Gwasanaethau Teleofal osod larymau a synwryddion yn eich cartref er mwyn sicrhau eich bod chi mor ddiogel â phosib ac i sicrhau bod cymorth ar gael yn gyflym ac yn hawdd i dawelu eich meddwl.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT ffoniwch y gwasanaeth Safe at Home: 01443 425090

Mae Tourism for All yn darparu gwybodaeth am wyliau hygyrch. Mae nifer o ganllawiau gyda nhw, gan gynnwys canllaw ar gyfer cael cymorth ariannol at y gwyliau, gofal seibiant neu adsefydlu, defnyddio ocsigen yn ystod y gwyliau, llogi offer a gwyliau ar gyfer pobl gydag anghenion arbennig.

Rhif ffôn: 0845 124 9971
www.tourismforall.org.uk

Eiriolaeth

Proses yw Eiriolaeth sy'n cefnogi pobl a'u galluogi nhw i fynegi eu barn a'u pryderon, cael gwybodaeth, defnyddio gwasanaethau ac amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gall Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru gynnig gwybodaeth.
Rhif ffôn: 01656 336969
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, mae'r Prosiect Cymorth i Ofalwyr yn cynnig gwybodaeth a chymorth i ofalwyr.
Rhif ffôn: 01443 281463
Gall Age Connects Morgannwg gynnig eiriolaeth hefyd. Rhif ffôn: 01443 490650

Fforwm Cymru Gyfan yw'r unig sefydliad sy'n cynrychioli barn dim ond rhieni a gofalwyr pobl gydag anableddau dysgu, gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol.

Rhif ffôn: 029 2081 1120
www.allwalesforum.org.uk

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynnig cymorth, cyngor ac eiriolaeth i bobl sydd am wneud cwyn am y GIG.

Rhif Ffôn Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg: 01443 405830

Mae tîm Cymru Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn gweithio yn y maes datblygu cymunedol ac yn gweithio ar draws y meysydd eiriolaeth a siarter BSL.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch cao.wales@bda.org.uk

Mae Canolfan Byw Annibynnol Dewis yn darparu eiriolaeth i oedolion gydag anabledd dysgu.

Rhif ffôn: 01443 827930
www.dewiscil.org.uk

Llinell gymorth yw MEIC sy'n rhoi eiriolaeth a chyngor i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac ar gael 24 awr y dydd.

Rhif ffôn: 080880 23456
Neges destun: 84001
www.meiccymru.org/cym

Mae MIND Merthyr a'r Cymoedd yn cynnig eiriolaeth a chwnsela i bobl ifanc sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Rhif ffôn: 01685 707480
E-bost: info@matvmind.org
www.matvmind.org.uk

CWNSELA

Mae cwnselwyr yn darparu gwasanaeth i bobl sy'n edrych am gymorth a thriniaeth ar gyfer amrywiaeth eang o broblemau iechyd meddwl a phroblemau emosiynol.

Cwnsela	
Gwasanaeth cwnsela rhad ac am ddim yw Almond Tree Counselling i oedolion, plant a phobl ifanc.	Rhif ffôn: 01443 411914
Gwasanaeth rhad ac am ddim yw Canolfan Wybodaeth a Chwnsela Teuluol Tŷ Brynawel i bobl sy'n dioddef o broblemau sy'n ymwneud ag alcohol.	Rhif ffôn: 01443 226864 www.brynawel.org
Mae Prosiect Cymorth i Ofalwyr RhCT yn darparu gwasanaeth cwnsela rhad ac am ddim i ofalwyr, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.	Rhif ffôn CarersLine: 0808 100 1801
Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol yn darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch y gyfraith, gwasanaethau cyfreithiol a hawliau cyfreithiol. Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol yn y Gwasanaeth yn darparu cyngor yn rhad ac am ddim. Yn amodol ar gymhwysedd ariannol, mae'n bosib na fydd angen i chi dalu eich ffioedd cyfreithiol, ac mae'n bosib bydd y rheiny sy'n ennill incwm isel yn cael cyngor yn rhad ac am ddim.	Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 382188 Cyngor ar Bopeth Rhondda Taf: 03444 77 2020 Cyngor ar Bopeth Cwm Cynon: 01443 409284
Gwefan yw Counselling Directory sy'n eich helpu chi i chwilio am gwnelwyr a gwasanaethau cwnsela lleol.	www.counselling-directory.org.uk
Mae Cruse Bereavement Care yn darparu gwasanaeth cyngor, cwnsela a chymorth i bobl sy'n galaru.	Rhif ffôn: 01685 876020 www.crusebereavementcare.org.uk

Cwnsela (parhad)

Mae Eye to Eye yn darparu gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Rhif ffôn: 01443 202940
www.eyetoeyewales.co.uk

Mae New Pathways yn darparu gwasanaeth cwnsela cyffredinol chwnsela ar ôl cam-drin rhywiol.

Rhif ffôn: 01685 379310

Elusen yw SNAP Cymru sy'n cynnig eiriolaeth a gwasanaethau datrys anghydfod i deuluoedd plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed gydag anghenion addysgol arbennig neu allai fod gydag anghenion addysgol arbennig.

Rhif ffôn: 0808 801 0608
www.snapcymru.org

Mae Tŷ Ellis yn darparu gwasanaeth cwnsela a seicotherapi i bob unigolyn 18 oed neu hŷn o bob cefndir cymdeithasol ac ethnig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Rhif ffôn: 01656 786486
E-bost: office@tyelis.org.uk

GENEDIGAETHAU A MARWOLAETHAU

Genedigaethau a Marwolaethau

Dylech chi gofrestru Genedigaethau a Marwolaethau yn ein Swyddfa Gofrestru Ranbarthol yn Adeiladau'r Cyngor ym Mhontypridd neu un o'r swyddfeydd rhanbarthol yn Aberdâr neu Dreorci. Er mwyn lleihau amseroedd aros, rhaid defnyddio apwyntiad gyda phob swyddfa.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch y Swyddfa Gofrestru: 01685 727333

Yn RhCT, ffoniwch y Swyddfa Gofrestru Ranbarthol i drefnu apwyntiad: 01443 494024

Os ydych chi'n cofrestru genedigaeth, mae'n bosib bydd yr wybodaeth yn ein hadran Plant a Phobl Ifanc yn ddefnyddiol i chi.

Mae Bereaved Parent Support yn helpu'r rheiny sydd wedi colli plentyn o unrhyw oedran ac mewn unrhyw amgylchiad, trwy rwydwaith cymorth dros y ffôn, digwyddiadau a chylchlythyr electronig rheolaidd.

Rhif ffôn: 029 2081 0800

www.careforthefamily.org.uk/bps

Mae Cruse Bereavement Care yn darparu gwasanaeth cyngor, cwnsela a chymorth.

Rhif ffôn: 01685 876020

Llinell gymorth yw Dying Well Matters sy'n darparu cyngor i deuluoedd cleifion sy'n dod i ddiwedd eu bywyd.

Rhif ffôn: 0300 100 2011

Grŵp yn RhCT yw Gofalwyr y Gorfennol sy'n cynnig cwmni a chyfeillgarwch i gyn- ofalwyr.

Rhif ffôn: 01443 491850

Mae Sands yn cynnig cymorth pan fydd baban yn marw yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl genedigaeth. Maen nhw'n cynnig amrywiaeth helaeth o wasanaethau cymorth i unrhyw un mae marwolaeth baban wedi effeithio arny nhw.

Rhif ffôn: 0808 164 3332

E-bost: helpline@sands.org.uk

www.uk-sands.org

Mae Dywedwch Unwaith yn Unig yn golygu nad oes rhaid i chi gysylltu ag amrywiaeth o adrannau llywodraethol ar ôl marwolaeth rhywun.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 727333

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 494024

BUDD-DALIADAU A CHYMORTH I OFALWYR

e rhai hawliadau ar gael i helpu pobl sy'n gofalu am bobl eraill yn ddi-dâl. Mae'r grwpiau sydd wedi eu rhestru yn yr adran hon yn darparu cymorth i wneud gofal yn fwy effeithiol.

Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig

<p>Mae'r Grŵp Cymorth Asperger yn rhoi cyngor a chymorth i deuluoedd a gofaluwr plant gydag awtistiaeth.</p>	<p>Yn Ysbyty Cwm Cynon ffoniwch: 01443715044 E-bost: CTUB_AUTSERV@wales.nhs.uk</p>
<p>Mae Autism Life Centre yn darparu gwasanaethau dydd i oedolion ifanc gydag awtistiaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn ysgogi, yn heriol ac yn ystyrlon.</p>	<p>Canolfan Ddydd Dan Murphy, Heol Brithweunydd, Trealaw CF40 2UD Ffôn: 01443 438027</p>
<p>Mae'r Cyfeiriadur Gwasanaethau Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistiaeth i unigolion a'u teuluoedd yn cynnwys manylion gwasanaethau cymorth lleol.</p>	<p>Rhif ffôn: 01443 844764 E-bost: Hello@theautismdirectory.com</p>
<p>Grŵp cymorth yw Grŵp Cymorth i Rien Awtistiaeth i rieni a gofaluwr plant o bob oedran sy'n byw gydag awtistiaeth yn y Rhondda. Mae'r grŵp yn anffurfiol ac yn gyfeillgar ac yn cwrdd bob mis.</p>	<p>Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, e-bostiwrch bridgend@nas.org.uk Ym Merthyr Tudful, ffonwch Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth ar: 01685 350965 Yn RhCT, ffonwch: 01443 684581</p>
<p>Grŵp cymorth yw Life With Autism yn y Rhondda sy'n darparu gweithgareddau a sesiynau teuluol. Am fwy o fanylion ewch i'w tudalen Facebook, 'life with autism'.</p>	<p>Rhif ffôn: 07983 028544 E-bost lifewithautismrct@hotmail.co.uk</p>
<p>Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth RhCT yn rhoi cymorth a gwybodaeth i deuluoedd, plant a phobl ifanc gydag anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth, a'r rheiny sydd yng nghanol y broses o gael diagnosis.</p>	<p>Ewch ar eu tudalen Facebook, "NAS RCT", neu e-bostiwrch rapsgroup@outlook.com am fwy o wybodaeth.</p>

Cymorth i Ofalwyr

Mae Cymorth i Ofalwyr ar gael i ofalwyr sy'n byw yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr: Rhif ffôn Ymddiriedolaeth Gofalwyr De-ddwyrain Cymru: 01656 336969

Mae Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn arbenigo mewn rhoi cefnogaeth i ofalwyr o bob oedran, unai gartref neu lleoliad mwy cyfleus. Mae y Ganolfan yn rhoi gwybodaeth a chyngor, a darparu rhaglen eang o amser sebiant byr. 'Rydym yn darparu Cyngor Budd-daliadau Lles, Cyngor Cyfreithiol, Grantiau Gofalwyr, Cynhwysiant Digidol, Cwnsela Gyrfaoedd Am Ddim, Gwybodaeth a Chefnogaeth Teulu Macmillan, Cefnogaeth Rhiant Gofalwyr, Gofalwyr Ifanc, a Chefnogaeth Gofalwyr Oedolion Ifanc. 'Rydym i'n gweld yn yr ysbytai lleol, canolfanau Meddyg Teulu, fferyllfaoedd, Canolfan Gwaith, Ysgolion a Cholegau ble mae gofalwyr yn cael eu hadnabod yn hawdd i gael gwybodaeth a chefnogaeth amserol. Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr ffôn: 01656 658479.
www.bridgendcarers.co.uk

Ym Merthyr Tudful, mae gwybodaeth a chyfeiriadau i ofalwyr ar gael trwy ffonio Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful: 01685 353900

Yn RhCT, mae'r Prosiect Cymorth i Ofalwyr yn rhoi cymorth rhad ac am ddim i ofalwyr, sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, gwasanaeth cwnsela a diwrnodau hyfforddi sy'n ymwneud ag amrywiaeth o bynciau. Rhif ffôn: 01443 281463.
www.rctcbc.gov.uk/carers

Sefydliad yw Gofalwyr y DU / Cymru i ofalwyr sy'n cael ei arwain gan ofalwyr ar gyfer gofalwyr. Mae'n gweithredu i greu newid yn lleol ac yn genedlaethol i'w aelodaeth o ofalwyr.

Rhif ffôn: 029 2081 1370
Gwefan: www.carerswales.org
E-bost: beth.evans@carerswales.org

Gallwch chi gael asesiad gofalwr os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn neu os ydych chi'n rhoi gofal 'sylweddol a rheolaidd' i oedolyn. Bydd eich asesiad gofalwr yn nodi eich anghenion fel gofalwr ac yn helpu i gynllunio'r cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 642279

Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 353907

Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003
E-bost: cynnalycynhalwyr@rctcbc.gov.uk

Mae Hyrwyddwyr Gofalwyr yn cael eu henwebu i roi gwybodaeth a chyngor i gefnogi mentrau a digwyddiadau i ofalwyr, ac i helpu i nodi gofalwyr newydd.

Mae Hyrwyddwyr Gofalwyr i'w gweld mewn meddygfeydd, fferyllfeydd, ysgolion, ar wardiau ysbytai, yn y gwasanaethau cymdeithasol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r sector gwirfoddol. Os ydych chi am gael mwy o wybodaeth am Hyrwyddwyr Gofalwyr, ffoniwch 01443 744825.

Grŵp Ysgrifennu Creadigol i Ofalwyr.

Cysylltwch ag Irene neu Ann am fwy o wybodaeth.
E-bost: ireneburton66@gmail.com neu davcau1952@gmail.com

Cymorth i Ofalwyr (parhad)

Mae modd defnyddio'r Cerdyn Argyfwng i Ofalwyr i ddangos pw ydych chi os byddwch chi mewn damwain neu os byddwch chi'n mynd yn sâl yn sydyn.

Rhif ffôn CarersLine: 0117 965 2200

Mae deddfwriaeth gafodd ei basio yn ystod y 25 mlynedd diwethaf yn rhoi hawliau a hawliadau penodol i ofalwyr, gan gynnwys:

- Yr hawl i gael gwybodaeth am eich hawliau ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Yr hawl i benderfynu faint o ofal rydych chi am ei ddarparu
- Yr hawl i fod yn rhan o asesiad o anghenion yr unigolyn rydych chi'n gofalu amdano (oni bai fod y person hwnnw'n hŷn na 18 oed, a'i fod wedi dweud dydy e ddim am gael hwnnw)
- Yr hawl i gael asesiad o'ch anghenion eich hun (gan gynnwys eich anghenion o safbwynt amser hamdden, addysg, a chyflogaeth) er mwyn sicrhau eich bod chi'n gallu parhau i ofalu ar y lefel rydych chi'n bwriadu ei darparu
- Yr hawl i gael rhywun yn bresennol yn ystod cyfarfodydd neu asesiadau i'ch cefnogi chi. Gallai fod yn frind, yn berthynas, neu'n weithiwr eiriolaeth, er enghraifft.
- Yr hawl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i gael gwasanaethau perthnasol (os ydych chi'n gymwys)
- Yr hawl i fod yn rhan o'r broses o gynllunio eich rhyddhau chi o'r ysbyty.
- Yr hawl i ofyn am gyfnod rhesymol y tu hwnt i'r gwaith heb dâl er mwyn trefnu gofal, darparu gofal neu am resymau eraill sy'n ymwneud â gofalu.
- Yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg fel rhieni sy'n gofalu am blant dan 18 oed ac sydd wedi bod yn gweithio i'w cyflogwr am 26 wythnos neu fwy.
- Yr hawl i ofyn am drefniadau tebyg os ydych chi'n gofalu am rywun gartref.
- Yr hawl i gael gofal seibiant, os ydych chi'n deulu gyda phlentyn anabl.

Am fwy o wybodaeth neu am lyfryn rhad ac am ddim 'Gofalu am rywun', ffoniwch Gofalwyr Cymru: 029 2081 1370 neu lawrlwythwch ef o'u gwefan www.carersuk.org/wales

Cymorth i Ofalwyr (parhad)

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg Gydlynnydd Gofalwyr i godi proffil gofalwyr.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch Gydlynnydd y Mesur Gofalwyr: 01443 74800

Fel arfer, mae Diwrnod Hawliau Gofalwyr ym mis Rhagfyr ac mae Wythnos y Gofalwyr ym mis Mehefin. Yn ystod y rhain, bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled y DU i godi ymwybyddiaeth am anghenion gofalwyr ac i roi gwybod i'r rheiny sydd ddim yn ymwybodol am y gwasanaethau a'r budd-daliadau gallan nhw eu hawlio.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643

Ym Merthyr Tudful, cysylltwch â'r Swyddfa Datblygu Gofalwyr ar: 01685 353907

Yn RhCT cysylltwch â'r Prosiect Cymorth i Ofalwyr: 01443 281463

Mae The Carers Star Project yn unigryw yn ardal Merthyr Tudful. Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor, asesiad un wrth un yn y cartref, yn y swyddfa neu yn y gymuned er mwyn rhoi'r cymorth cyson a pharhaus sydd ei angen ar ofalwyr. Mae pob agwedd ar gymorth yn cael ei thrin neu'n ychwanegol i'r gwasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu. Yn ogystal â hynny, mae Clwb Coffi'r Gofalwyr yn rhan o'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu i ofalwyr er mwyn dod ynghyd am gymorth, paned a sgwrs.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Pamela Khan trwy ffonio 01685 707480 neu 07985 201545

E-bost: Pam.Khan@matvmind.org.uk

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr (gafodd ei ffurfio gan uno Crossroads Care a'r Princess Royal Trust for Carers) yn darparu cymorth ymarferol i ofalwyr trwy weithwyr cymorth gofal sydd wedi'u hyfforddi i allu darparu seibiant i ofalwyr a thrwy rwydwaith o ganolfannau i ofalwyr a gwasanaethau i ofalwyr ifanc sy'n cael eu rheoli'n annibynnol.

Rhif ffôn: 0300 772 9702

www.carers.org

E-bost: wales@carers.org

Grŵp yw CBS Group sy'n cael ei redeg gan rieni ar gyfer rhieni. Maen nhw'n darparu cymorth i gymheiriaid, gweithdai hyfforddi ac ati. Does dim angen i'r unigolyn rydych chi'n gofalu amdano fod wedi cael diagnosis penodol.

Rhif ffôn: 07562 223697

E-bost: info.cbs2014@gmail.com

33 Heol Gelliwastad, Pontypridd

Cymorth i Ofalwyr (parhad)

Mae Cyngor ar Bopeth i Ofalwyr yn helpu i roi gwybod i bobl eu bod nhw'n ofalwyr ac yn sicrhau eu bod nhw'n cael y cymorth sydd angen arnyn nhw. Rydyn ni'n darparu cyngor arbenigol ar fudd-daliadau, dyled, tai, cyflogaeth, asesiadau, rhyddhau o'r ysbyty ac ati. Mae ymgynghorydd ar gael i gwrdd â chi yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn Ysbyty Cwm Cynon.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r ymgynghorydd Jack Bennett ar 07950 946605.

E-bost:
jack.bennett@citizensadvicemt.org.uk

Cwynion Os dydych chi ddim yn hapus gyda'ch gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae hawl gyda chi i wneud cwyn. Os dydych chi ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gallwch chi gysylltu â'r Swyddogion Cymorth i Gleifion.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch: 01656 643643
Ym Merthyr Tudful, ffoniwch: 01685 725000
Yn RhCT, ffoniwch: 01443 425003
Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ffoniwch: 01685 721721 neu 01443 443443

Mae cymorth cyflogaeth ar gael gan y Ganolfan Byd Gwaith os ydych chi'n dechrau gweithio neu'n dychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys magu hyder, gwirfoddoli, cyfrifiadau gwell eich byd a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar waith.

Rhif ffôn: 0800 169 0190 am apwyntiad gydag ymgynghorydd lleol.

Mae'n debygol bod angen cymorth yn y gweithle ar ofalwyr sy'n gweithio ac mae'n bosib eu bod nhw am wybod am eu hawliau cyfreithiol, y newidiadau gallwch chi eu gwneud yn y gweithle, sut i gael cymorth ymarferol i ofalu a sut i wneud cais am weithio hyblyg.

Ffoniwch Gofalwyr Cymru:
029 2081 1370
www.carersuk.org/wales

